

WG21 – 72

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

**Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth
Gwaed Heintiedig Cymru
(Diwygio) (Rhif 2) 2021**

Gwnaed

13 Awst 2021

*Yn dod i rym yn unol â pharagraff 1(2), (3) a
(4)*

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 16 Awst 2021.

(3) Mae'r diwygiadau ym mharagraff 6 yn cael effaith o 1 Ebrill 2019.

(4) Mae'r diwygiadau ym mharagraffau 7, 8 a 9 yn cael effaith o 1 Ebrill 2021.

(5) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(2).

(1) 2006 p. 42.

(2) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

RHAN 2

Diwygiadau Amrywiol

Diwygiadau i Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017

2. Mae Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Diwygiadau i baragraff 2 (dehongli)

3. Ym mharagraff 2 (dehongli)—

- (a) yn lle'r diffiniad o “y Cytundeb” rhodder—
“ystyr “y Cytundeb” (*“the Agreement”*) yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Rheoli a Gweinyddu Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar 4 Mai 2021 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;”;
- (b) yn y diffiniad o “hawlogaeth flynyddol”, ym mharagraff (b), ar ôl “ynddi” mewnosoder—
“,
fel y'i nodir yn Atodlen 7”;
- (c) yn y diffiniad o “y Taliad Profedigaeth”, yn lle “chyfarwyddyd 5(1)” rhodder “pharagraff 5(1)”.

Diwygiadau amrywiol

4.—(1) Ym mharagraff 4 (taliadau i Bersonau Cymhwysol)—

- (a) ar ôl is-baragraff (d) hepgorer “ac”;
- (b) ar ôl is-baragraff (e) mewnosoder—
“(f) Atodlen 6 ar gyfer taliadau ôl-ddyddiedig; ac
(g) Atodlen 7 ar gyfer hawlogaeth flynyddol Person Cymhwysol.”

(2) Yn is-baragraff (5) o baragraff 5 (priodau a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth), yn lle “baragraff (1)” rhodder “is-baragraff (1)”.

(3) Ym mharagraff 6 (plant dibynnol)—

- (a) yn is-baragraff (1)—

(1) Fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2019, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020 a Chyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2021.

- (i) yn lle “gyfarwyddyd 5(1)” rhodder “baragraff 5(1)”;
 - (ii) yn lle “gyfarwyddyd 5(2) neu (3)” rhodder “baragraff 5(2) neu (3)”;
 - (b) yn is-baragraff (2), yn lle “ym mharagraff (1)” rhodder “yn is-baragraff (1)”.
- (4) Ym mharagraff 6A (yr Ystad), yn lle “gyfarwyddyd 5(1)” rhodder “baragraff 5(1)”.

Apelau

5. Ar ôl paragraff 6A (yr Ystad) mewnosoder—

“Apelau

6B.—(1) Pan fo person yn gwneud cais i Ymddiriedolaeth GIG Felindre am daliad o dan y Cynllun hwn (“y ceisydd”) a bod y taliad hwnnw yn cael ei wrthod, rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Felindre roi hysbysiad ysgrifenedig o’r gwrthodiad hwnnw i’r ceisydd, gan gynnwys ei rhesymau dros wrthod.

(2) Caiff y ceisydd apelio yn erbyn penderfyniad gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a hysbyswyd yn unol ag is-baragraff (1) drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig o’r apêl i Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

(3) Rhaid i apêl o dan is-baragraff (2) gael ei gwneud o fewn 3 mis i ddyddiad dyroddi’r hysbysiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (1).

(4) Caniateir i apêl a wneir ac eithrio yn unol â’r terfyn amser yn is-baragraff (3) gael ei derbyn os yw Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystyried bod sail resymol dros yr oedi.

(5) Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Felindre sefydlu panel o bersonau (“y panel”) nad ydynt wedi cael rôl wrth benderfynu’r cais sy’n destun apêl i ystyried apêl a wneir o dan is-baragraff (2).

(6) Pan fo’r panel a sefydlir o dan is-baragraff (5) yn gwrthod apêl yn gyfan gwbl neu’n rhannol, rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Felindre roi hysbysiad ysgrifenedig o’r penderfyniad i’r ceisydd, gan gynnwys crynodeb o resymau’r panel dros wrthod yr apêl.

(7) Pan fo’r panel a sefydlir o dan is-baragraff (5) yn cadarnhau apêl, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Felindre roi hysbysiad ysgrifenedig o hyn i’r ceisydd ac, mewn achosion priodol, gadarnhâd bod y ceisydd, at y dibenion hynny, i’w drin fel pe bai wedi ymuno â’r Cynllun ar y dyddiad y cafwyd ei gais am daliad gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.”

RHAN 3

Diwygiadau i Symiau Taliadau

Taliadau Profedigaeth Blynyddol

6. Ym mharagraff 5 (priodau a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth)—

(a) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), yn ychwanegol at y Taliad Profedigaeth, pan fo Person Cymhwysol yn marw, mae hawlogaeth gan ei briod neu ei bartner sy'n parhau'n fyw i gael—

(a) taliad sy'n gyfwerth â hawlogaeth flynyddol y Person Cymhwysol hwnnw, y gellir ei gyfeirio at y flwyddyn galendr sy'n dilyn dyddiad y farwolaeth; a

(b) taliad blynyddol sy'n gyfwerth â 75% o hawlogaeth flynyddol y Person Cymhwysol hwnnw ym mhob blwyddyn sy'n dilyn blwyddyn y farwolaeth,

y caniateir iddo gael ei dalu drwy daliadau misol.”;

(b) yn lle is-baragraff (3) rhodder—

“(3) Pan fo'r Person Cymhwysol yn marw ar neu cyn 31 Mawrth 2019, mae gan ei briod neu ei bartner sy'n parhau'n fyw hawlogaeth i gael taliad blynyddol sy'n gyfwerth â 75% o hawlogaeth flynyddol y Person Cymhwysol hwnnw ym mhob blwyddyn sy'n dilyn yr hwyraf o'r canlynol—

(a) y flwyddyn galendr pan gafodd y priod neu'r partner sy'n parhau'n fyw y taliad olaf y byddai ganddo hawlogaeth i'w gael o dan baragraff 5(2), fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2019, neu

(b) y drydedd flwyddyn galendr sy'n dilyn dyddiad y farwolaeth.”;

(c) hepgorer is-baragraff (4).

Diwygiadau i daliadau blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 - 2022

7.—(1) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle “£4,833” rhodder “£18,912”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “£19,344” rhodder “£28,680”.

(2) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle “£19,344” rhodder “£28,680”.

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle “£19,344” rhodder “£28,680”.

(4) Yn Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV)—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle “£23,527” rhodder “£38,928”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£38,166” rhodder “£45,072”;

(b) ym mharagraff 2, yn lle “£38,166” rhodder “£45,072”.

Diwygiadau i gyfandaliadau untro o’r flwyddyn ariannol 2021 - 2022

8.—(1) Ym mharagraff 2 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I), yn lle “£20,000” rhodder “£50,000”.

(2) Yn Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II)—

(a) ym mharagraff 2, yn lle “£50,000” rhodder “£70,000”;

(b) ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

“**3.** Caniateir i gyfandaliad untro o £20,000 gael ei wneud i Berson Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I sy’n dod yn Berson Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II.”

(3) Ym mharagraff 2 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle “£20,000” rhodder “£80,500”.

(4) Yn Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV)—

(a) ym mharagraff 3, yn lle “£40,000” rhodder “£130,500”;

(b) ym mharagraff 4, yn lle “£70,000” rhodder “£150,500”;

(c) ar ôl paragraff 4 mewnosoder—

“**4A.** Caniateir i gyfandaliad untro o £20,000 gael ei wneud i Berson Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I a HIV sy’n dod yn Berson Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II a HIV.”

Taliadau tanwydd gaeaf

9.—(1) Yn Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I), ar ôl paragraff 3 mewnosoder—

“**4.** Caniateir i swm ychwanegol o £544, sydd wedi ei ddynodi’n daliad tanwydd gaeaf, gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I ym mhob blwyddyn ariannol.”

(2) Yn Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), ar ôl paragraff 3 mewnosoder—

“**4.** Caniateir i swm ychwanegol o £544, sydd wedi ei ddynodi’n daliad tanwydd gaeaf, gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II ym mhob blwyddyn ariannol.”

(3) Yn Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

“**3.** Caniateir i swm ychwanegol o £544, sydd wedi ei ddynodi’n daliad tanwydd gaeaf, gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â HIV ym mhob blwyddyn ariannol.”

(4) Yn Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV), ar ôl paragraff 4A mewnosoder—

“**4B.** Caniateir i swm ychwanegol o £544, sydd wedi ei ddynodi’n daliad tanwydd gaeaf, gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV ym mhob blwyddyn ariannol.

4C. Ni chaiff Person Cymhwysol sy’n gymwys i gael taliad o dan baragraff 4B o’r Atodlen hon hawlio taliad tanwydd gaeaf am yr un flwyddyn ariannol o dan baragraff 4 o Atodlen 1, paragraff 4 o Atodlen 2 neu baragraff 3 o Atodlen 3.”

Taliadau ôl-ddyddiedig

10.—(1) Hepgorer paragraff 8 (hawlogaeth i gael taliad uwch ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018 – 2019).

(2) Ar ôl paragraff 6B (apelau) mewnosoder—

“Darpariaeth ar gyfer taliadau ôl-ddyddiedig

6C. Mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer taliadau ôl-ddyddiedig.

Hawlogaeth flynyddol

6D. Mae Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawlogaeth flynyddol Person Cymhwysol.”

(3) Ar ôl Atodlen 5 (taliadau eraill) mewnosoder—

“ATODLEN 6 Paragraff 6C

Taliadau Ôl-ddyddiedig

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020

1.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod I ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019 - 2020 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1(a) o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £18,458 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1(a) o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I (uwch) gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020

2.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod I (uwch) ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019 - 2020 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1(b) o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £28,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1(b) o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020

3.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod II ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019

- 2020 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1 o Atodlen 2, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £28,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1 o Atodlen 2, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â HIV gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020

4.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd HIV ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019 - 2020 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1 o Atodlen 3, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £28,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1 o Atodlen 3, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020

5.—(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod I a HIV ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019 - 2020 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1(a) o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £38,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1(a) o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod I (uwch) a HIV ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019 - 2020 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1(b) o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(4) Caniateir i daliad o £44,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1(b) o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

(5) Mae is-baragraff (6) yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod II a HIV ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2019 - 2020 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 2 o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(6) Caniateir i daliad o £44,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 - 2020, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 2 o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021

6.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod I ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2020 - 2021 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1(a) o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £18,772 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1(a) o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I (uwch) gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021

7.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod I (uwch) ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2020 - 2021 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1(b) o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £28,476 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1(b) o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021

8.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod II ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2020 - 2021 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1 o Atodlen 2, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £28,476 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1 o Atodlen 2, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â HIV gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021

9.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd HIV ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2020 - 2021 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1 o Atodlen 3, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £28,476 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1 o

Atodlen 3, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV gael taliad blynyddol ôl-ddyddiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021

10.—(1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod I a HIV ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2020 - 2021 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1(a) o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Caniateir i daliad o £38,646 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1(a) o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod I (uwch) a HIV ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2020 - 2021 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 1(b) o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(4) Caniateir i daliad o £44,748 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 1(b) o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

(5) Mae is-baragraff (6) yn gymwys pan oedd hepatitis C – Cyfnod II a HIV ar Berson Cymhwysol yn ystod y flwyddyn ariannol 2020 - 2021 ac roedd ganddo hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 2 o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2021, yn ystod y cyfnod hwnnw.

(6) Caniateir i daliad o £44,748 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 - 2021, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 2 o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2020, yn ystod y flwyddyn ariannol

honno, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I gael cyfandaliad untro ôl-ddyddiedig

11.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan, o ran Person Cymhwysol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2021—

- (a) yr oedd yn Berson Cymhwysol Newydd;
- (b) yr oedd hepatitis C – Cyfnod I arno; ac
- (c) yr oedd ganddo hawlogaeth i gael cyfandaliad untro o dan baragraff 2 o Atodlen 1, fel yr oedd mewn grym yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), caniateir i gyfandaliad untro o £50,000, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 2 o Atodlen 1, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

(3) Pan ddaeth Person Cymhwysol a ddisgrifir yn is-baragraff (1) yn Berson Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2021 a chael taliad o dan baragraff 2 o Atodlen 2, fel yr oedd mewn grym yn ystod y cyfnod hwnnw, nid oes ganddo hawlogaeth i gael y cyfandaliad untro o dan is-baragraff (2).

Hawlogaeth i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV gael cyfandaliad untro ôl-ddyddiedig

12.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan, o ran Person Cymhwysol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2021—

- (a) yr oedd yn Berson Cymhwysol Newydd;
- (b) yr oedd hepatitis C – Cyfnod I a HIV arno; ac
- (c) yr oedd ganddo hawlogaeth i gael cyfandaliad untro o dan baragraff 3 o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), caniateir i gyfandaliad untro o £130,500, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 3 o Atodlen 4, gael ei dalu i'r Person Cymhwysol

neu, yn achos Person Cymhwysol sydd wedi marw, gael ei ddyrannu yn unol â dosbarthiad ystad y Person Cymhwysol.

(3) Pan ddaeth Person Cymhwysol a ddisgrifir yn is-baragraff (1) yn Person Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II a HIV yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2021 a chael taliad o dan baragraff 4 o Atodlen 4, fel yr oedd mewn grym yn ystod y cyfnod hwnnw, nid oes ganddo hawlogaeth i gael y cyfandaliad untro o dan is-baragraff (2).

Hawlogaeth i briodau a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth a phlant dibynnol i Bersonau Cymhwysol sydd wedi marw cyn y flwyddyn ariannol 2019 - 2020 gael taliad cyfanredol ôl-ddyddiedig

13.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fu farw Person Cymhwysol ar neu cyn 31 Mawrth 2019 a bod gan briod, partner neu blentyn dibynnol sy'n parhau'n fyw hawlogaeth i gael taliad o dan baragraff 5(2) neu 6(1) o'r Cyfarwyddydau hyn, fel yr oeddent mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2019.

(2) Caniateir i daliad blynyddol sy'n gyfwerth â 75% o hawlogaeth flynyddol y Person Cymhwysol hwnnw am dair blynedd galendr sy'n dilyn dyddiad y farwolaeth, minws unrhyw swm a dalwyd eisoes o dan baragraff 5(2) neu 6(1) o'r Cyfarwyddydau hyn, fel yr oeddent mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2019, gael ei dalu drwy gyfandaliad untro i—

- (a) y priod neu'r partner sy'n parhau'n fyw, neu
- (b) pob plentyn dibynnol mewn cyfrannau cyfartal pan nad oedd gan y Person Cymhwysol briod neu bartner a oedd yn parhau'n fyw ar adeg ei farwolaeth, neu
- (c) ystad y Person Cymhwysol pan nad oedd gan y Person Cymhwysol briod neu bartner a oedd yn parhau'n fyw na phlant dibynnol ar adeg ei farwolaeth.

ATODLEN 7 Paragraff 6D

Hawlogaeth Flynyddol

1. At ddibenion y Cyfarwyddydau hyn a'r ddarpariaeth ar gyfer taliadau ôl-ddyddiedig ym mharagraff 6C (darpariaeth ar gyfer taliadau ôl-ddyddiedig) ac Atodlen 6 (taliadau ôl-ddyddiedig), yr hawlogaeth flynyddol i—

- (a) Person Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I—
 - (i) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 – 2022, yw £18,912;
 - (ii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 – 2021, yw £18,772;
 - (iii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 – 2020, yw £18,458;
- (b) Person Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I (uwch)—
 - (i) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 – 2022, yw £28,680;
 - (ii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 – 2021, yw £28,476;
 - (iii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 – 2020, yw £28,000;
- (c) Person Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II—
 - (i) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 – 2022, yw £28,680;
 - (ii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 – 2021, yw £28,476;
 - (iii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 – 2020, yw £28,000;
- (d) Person Cymhwysol sydd â HIV—
 - (i) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 – 2022, yw £28,680;
 - (ii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 – 2021, yw £28,476;
 - (iii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 – 2020, yw £28,000;
- (e) Person Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I a HIV—
 - (i) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 – 2022, yw £38,928;
 - (ii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 – 2021, yw £38,646;
 - (iii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 – 2020, yw £38,000;
- (f) Person Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I (uwch) a HIV—
 - (i) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 – 2022, yw £45,072;
 - (ii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 – 2021, yw £44,748;
 - (iii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019 – 2020, yw £44,000;
- (g) Person Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II a HIV—

- (i) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021
– 2022, yw £45,072;
- (ii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020
– 2021, yw £44,748;
- (iii) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019
– 2020, yw £44,000.”

Yr Athro Chris Jones
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth
Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru

Dyddiad 13 Awst 2021